

Mynediad i fancio: Canlyniadau'r arolwg

Mehefin 2019

Fel rhan o ymchwiliad y **Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau**, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg i helpu i ddeall yr effaith y mae cau banciau wedi ei chael ar unigolion, busnesau a chymunedau.

Hyrwyddo'r arolwg a'i ddadansoddi

Anogwyd y cyhoedd i gymryd rhan yn yr arolwg drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Pwyllgor a'r Cynulliad. Defnyddiwyd hysbysebion Facebook i dargedu croestoriad daearyddol eang, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r banc olaf yno wedi cau.

Caiff y canlyniadau eu cyfrifo yn ôl nifer y bobl a ymatebodd i'r cwestiwn penodol, nid nifer y bobl a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol. Trefnwyd y canlyniadau yn ôl poblogrwydd - gyda'r ymateb mwyaf poblogaidd yn gyntaf.

Ymatebwyr i'r arolwg

Casglwyd **867** o ymatebion i'r arolwg.

Q1. Fel cwsmer bancio personol, a yw cau canghennau nac wedi cael effaith arnoch chi?

Do	87%
Na	11%
Ddim yn gwybod	2%
Ni does gennyf gyfrif banc	0%



Q2. Fel cwsmer bancio personol, sut mae cau banciau yn y gorffennol wedi effeithio arnoch chi?

Mynediad cyfyngedig I beiriant codi arian neu unrhyw gyfleuster	50%
Erbyn hyn mae'n cymryd hyd at 30 munud yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen banc	36%
Mwy o ddefnydd o fancio digidol (ar-lein, ap symudol, ffôn, ac ati)	34%
Erbyn hyn mae angen i mi ddefnyddio Swyddfa'r Post ar gyfer bancio	32%
Erbyn hyn mae'n cymryd hyd at awr yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen banc	29%
Rwy'n ei chael hi'n anodd defnyddio bancio digidol oherwydd diffyg sgiliau rhyngrwyd a / neu ddigidol	16%
Erbyn hyn mae'n cymryd dros awr yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen banc	13%
Newidiais i ddarparwr banc gwahanol	8%
Nid oes gennyf gludiant i deithio i gangen banc arall	7%
Erbyn hyn mae'n cymryd hyd at 15 munud yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen ban	6%
Dim effaith neu braidd ddim effaith	1%

Arall: 16%

Swyddfa'r Post	<p>"Caeodd swyddfa'r post yn y dref hefyd ac am 2 flynedd nid oedd dim byd. Yna agorwyd cownter yn siop Spar, a oedd yn llawer gwell na dim, OND ni fyddwn i'n hoffi defnyddio'r cownter ar gyfer bancio gan nad oes DIM preifatrwydd ac mae mor brysur yno y rhan fwyaf o'r amser, byddai'n brofiad cas i orfod defnyddio'r cownter gyda chiw'r siop ger eich ochr. Mae pawb yn cael eu gwasgu."</p> <p>"Mae talu arian i mewn drwy swyddfa'r post (arian parod) yn cymryd diwrnod gwaith ychwanegol i ddangos credydau."</p>	14%
Bancio digidol	<p>"Mae bancio ar y we bron yn amhosibl oherwydd prinder signal ffôn symudol."</p> <p>"Rwy'n casáu gorfod defnyddio bancio digidol. Nid wyf yn ymddiried ynddo. Dwi byth yn cofio fy nghyfrinair / cod ac atebion i gwestiynau arbennig. Mae'n llawer anoddach datrys problemau heb berson. Mae'n rhaid i mi fancio ar ran fy nghymydog oedrannus gan nad yw erioed wedi bod yn berchen ar ffôn symudol na chyfrifiadur."</p>	12%

	<p>“Mae'n rhwystredig gan nad oes modd gwneud popeth ar-lein. Gallaf edrych ar fy malans ar-lein, ond ni allaf wneud popeth chwaith, felly nid yw'n ddefnyddiol symud popeth yno. Mae cyflymder y we a signal ffôn yn fy nghwm i yn ofnadwy hefyd.”</p>	
Peiriannau ATM	<p>“Mae'r ddau beiriant arian parod yn ein tref ddi-fanc yn aml yn rhedeg allan o arian parod ar benwythnos.”</p> <p>“Mae'r tueddiad diweddar o osod ffi am godi arian o beiriant ATM yn peri pryder mawr.”</p>	9%
Busnesau a Chyflogaeth	<p>“Ni allaf gwblhau tasgau yn fy musnes oherwydd bod taith yn ôl a mlaen o 24 milltir i'r banc yn cymryd hanner y bore.”</p> <p>“Ni all banciau symudol ond derbyn blaendaliadau siec hyd at £300 felly pan fyddaf yn cael fy nhalu mae'n rhaid i mi gymryd amser i ffwrdd i yrru i'r dref fawr agosaf gan fod y banc yn Arberth ar gau.”</p>	8%
Teithio	<p>“Mae'n rhaid i mi wneud teithiau arbennig i fynd i'r banc gan nad oes banc yn agos at fy ngweithle na fy siop bob-dydd, sy'n golygu mwy o gostau teithio a llygredd.”</p> <p>“Cost defnyddio trafndiaeth gyhoeddus dim ond i fynd i'r banc.”</p> <p>“Mae fy manc agosaf yn daith yn ôl a mlaen o 20+ milltir, ac mae angen taith yn ôl a mlaen o 60 milltir ar yr agosaf wedyn, ond os ydw i eisiau mynd i'r cyfeiriad arall mae'n debyg y byddai'r daith yn 100 milltir dros y mynyddoedd ac yn ôl. Nawr mae'n rhaid i mi wneud yn siŵr fy mod yn cymryd digon o arian pan fyddaf yn cyrraedd y banc i bara am rai wythnosau.”</p> <p>“Roedd gan y gangen faes parcio am ddim a oedd yn gyfleus iawn.”</p>	8%
Dibynnu ar bobl eraill	<p>“Tra nad wyf wedi gallu gyrru oherwydd llawdriniaeth, mae'n rhaid i'm mam oedrannus a minnau ddibynnu ar ffrindiau i gyrraedd peiriant ATM neu siopa sy'n gallu darparu arian parod!”</p> <p>“Mae gennyf anabledd corfforol sy'n fy atal rhag gallu defnyddio banc symudol o bryd i'w gilydd. Mae hefyd yn fy atal rhag mynd i'r gangen agosaf sydd filltiroedd i ffwrdd heb drefnu i rywun fy helpu.”</p>	8%
Fan Symudol	<p>“Nid yw'r banciau symudol yn darparu'r un gwasanaethau h.y. swm cyfyngedig o arian y gallaf ei dynnu allan.”</p>	7%

	<p>“Mae'n rhaid i mi wneud holl fancio fy mam oedrannus ar-lein, gan gael gwared ar ei phreifatrwydd a'i hymreolaeth. Ni all sefyll mewn maes parcio oer ac aros mewn ciw am wasanaeth cyfyngedig iawn (ac yn fy mhrofiad i, anghwrtais) gan staff mewn fan.”</p> <p>“Daw fan Natwest unwaith yr wythnos yn unig.”</p>	
Sieciau	“Mae'n cymryd tua 4 diwrnod i siec gyrraedd fy nghyfrif banc. Mae'n cael ei brosesu ar unwaith os byddaf yn ei dalu i mewn i'm banc fy hun.”	4%
Anallu i newid darparwr banc	“Byddwn yn newid i fanc arall, ond maen nhw i gyd yn cau ar Ynys Môn, mae'n warthus.”	3%
Cymraeg	<p>“Diffyg gwasanaethau yn Gymraeg.”</p> <p>“Rhaid defnyddio mwy o fancio ar-lein sydd yn Saesneg yn unig.”</p>	2%
Elusen	<p>“Fel trysorydd elusen fach, ni allaf dalu i'r banc ddarnau arian, ac ni allaf wneud trosglwyddiadau rhyngwladol heb yrru 40 munud.”</p> <p>“Rwy'n gweithio i elusen, ac mae gorfod teithio ymhellach ar gyfer bancio yn ychwanegu at fy niwrnod gwaith ac ar ddiwedd y mis mae'n rhaid i mi adael gwaith yn gynharach i sicrhau bod y rhoddion yn cael eu talu i mewn yn brydlon gan fod rhaid i mi fynd ymhellach i fanc.”</p>	2%
Wedi newid darparwr banc	“Wedi gorfod newid banc.”	2%
Cymdeithas Adeiladu	“Ddefnyddio cymdeithas adeiladu leol.”	1%
Undeb Credyd	“Defnyddio cerdyn sydd wedi'i rag-lwytho gan undeb credyd.”	1%
Diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr banc	“Rwyf wedi bancio yn Lloyd's, Castell Newydd Emlyn ers 35 mlynedd. Cefais fy sicrhau gan staff banc na fyddai'r gangen yn cau a'u bod wedi cael eu huwchraddio o ran statws. O fewn blwyddyn cyhoeddwyd y byddai'r banc yn cau. Nid oes gennyf unrhyw hyder y gellir ymddiried mewn banciau yn y ffordd roeddwn i'n arfer teimlo y gellid ymddiried ynddynt. Nid wyf bellach yn teimlo fel cwsmer gwerthfawr yn cael gwasanaeth, ond yn fwy fel niwsans gan fy mod yn berson.”	1%

Q3. Os cafwyd effaith negyddol arnoch chi, beth y gellid ei wneud i helpu?

Mynediad rheolaidd i fanc teithiol (cerbyd banc)	40%
Bancio cymunedol	35%
Gwasanaethau bancio Swyddfa'r Post	28%
Better WiFi and/or internet connectivity	26%
Access to a credit union	8%
Don't Know	7%
Training on digital banking	5%
I have not been negatively affected	2%

Arall: 29%

Ni ddylai banciau fod wedi cael eu cau yn y lle cyntaf, dylai banciau ailagor neu beidio â chau y banc olaf mewn tref	<p>“Efallai bod angen o leiaf un banc ar agor yn y trefi hyn mewn ardal wledig. Gadewch i'r banciau rannu'r cyfrifoldeb hwn fel na fydd unrhyw fanc penodol yn ysgwyddo baich gormodol.”</p> <p>“Dewch â'r canghennau yn ôl! Mae gan rai trefi fwy nag un gangen o'r un banc, yn Llundain hyd yn oed ar yr un stryd. Gallant fforddio cael mwy o ysbryd cymunedol! Nid oes diben i fancio symudol - nid yw byth yno ar y diwrnod rydych ei angen ac mae'n rhaid i bensynwyr tlawd aros yn y glaw!”</p>	32%
Mwy o beiriannau ATM, yn enwedig peiriannau ATM rhad ac am ddim sy'n fwy dibynadwy	<p>“Peiriant arian lleol am ddim.”</p> <p>“Gosod peiriannau ATM amgen pan fydd canghennau'n cau.”</p>	14%
Safleoedd a rennir ar gyfer gwahanol ddarparwyr banc a/neu wasanaethau cymunedol eraill	<p>“Gan mai Barclays yw'r gangen olaf sydd ar ôl yn ein tref, mae ganddynt rwymedigaeth i'r gymuned a'u cwsmeriaid. Maent yn elwa arnom bob blwyddyn ac yn seilio cau'r gangen ar ffigurau nifer yr ymwelwyr o'u cymharu â threfi mwy. Dylai'r llywodraeth orfodi'r banciau i ddarparu un adeilad gyda chyfleuster bancio aml-frand mewn trefi fel fy un i (Abertyleri).”</p> <p>“Gallai'r banciau gydweithio, mewn gwirionedd, i ddarparu caffi bancio ar y we. Gallai staff banc hyfforddedig gefnogi defnydd cwsmeriaid o derfynellau neu gynnig gwasanaethau cownter confensiynol ar gyfer pob brand</p>	12%

	<p>banc. Byddai'r banciau'n elwa drwy fod â phresenoldeb ym mhob tref fach gyda chostau gweithredu a rennir (un adeilad, llai o staff), cefnogaeth a hyfforddiant uniongyrchol i annog defnyddio'r cyfleuster bancio ar y we a chyfleuster i gynghorwyr banc teithiol. Gallai cynnwys gwasanaeth arall, Gwybodaeth i Dwristiaid, yr Heddlu wneud y costau gweithredu hyd yn oed yn is gyda gwasanaeth cyhoeddus llawer gwell!"</p>	
<p>Faniau symudol yn amlach ac mewn mwy o leoliadau</p>	<p>"Fan bancio symudol ar ddydd Sadwrn i alluogi pobl sy'n gweithio yn ystod yr wythnos i'w ddefnyddio."</p> <p>"Dylai bancio symudol fod yn orfodol ym mhob tref lle caiff banc ei gau gydag amseroedd a lleoedd yn cael eu hanfon at bob un o'u cwsmeriaid yn yr ardal."</p>	4%
<p>Oriau agor hirach ac agor ar benwythnos</p>	<p>"Ailagor canghennau ar adegau cyfleus gan fod rhai ohonom yn gweithio'n llawn amser ac ni allwn deithio 2 awr yn ein hamser cinio."</p> <p>"Oriau agor hirach i ganghennau presennol i ganiatáu i'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser ymweld."</p>	4%
<p>Gwell gwasanaethau bancio yn Swyddfa'r Post</p>	<p>"Mae swyddfa'r post yn cynnig gwasanaethau bancio cyfyngedig. Dywedwyd wrthyf y byddent yn gallu cynnig yr holl wasanaethau. Tydi hyn DDIM yn wir. Camarweiniol iawn."</p> <p>"Wedi ticio Swyddfa'r Post, ond dim ond os gellir cyflymu eu system blaendal, mae'r newid presennol o 5 diwrnod yn wael."</p> <p>"Newidiodd ein swyddfa bost y llynedd i archfarchnad. Mae wedi'i ddylunio'n wael. Mae ciwiau o'r archfarchnad yn gwrthdaro â'r ciw i swyddfa'r post. A gall pobl glywed eich sgysiau."</p>	3%
<p>Bancio digidol - gwell diogelwch ar-lein a ffordd haws i gael gfael ar wasanaethau ffôn</p>	<p>"Mwy o ymddiriedaeth na fydd fy nghyfrif yn cael ei wagio os yw diogelwch bancio ar-lein yn methu."</p> <p>"Gwasanaethau bancio ffôn â phobl yn y DU sy'n rhugl eu Saesneg."</p>	3%

Darpariaeth gwasanaeth wyneb yn wyneb	<p>“Callu cael gafael yn lleol ar gyngor ariannol. Cyda'r holl sgamiau sy'n digwydd y dyddiau hyn, rwy'n teimlo bod siarad wyneb yn wyneb â staff bancio yn llawer mwy diogel.”</p> <p>“Apwyntiadau ymweld â'r cartref i siarad am eich cyfrif neu agor cyfrifon ac ati. Pethau y mae angen i chi eu trafod a gwneud apwyntiadau ar eu cyfer.”</p>	2%
Darpariaeth Gymraeg	<p>“Os caiff canghennau eu cau lle roedd gwasanaeth cwsmeriaid ar gael yn Gymraeg, mae angen sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael ar-lein, dros y ffôn (ac yn hytrach na dim ond ateb mewn canolfan alwadau - mae angen iddynt allu delio â ni beth bynnag yr angen). Mae hefyd angen sicrhau bod twll yn y waliau yn ein trefi sy'n gwbl ddwyieithog ee Morrisons, Homebargains, garej Shell ac ati.”</p>	1%
Bancio cymunedol	<p>“Creu Banc Cymru, a chael canghennau lleol yn swyddfeydd y Cyngor neu Lyfrgelloedd efallai.”</p> <p>“... Yr unig ateb y gallaf ei weld yw math hollol newydd o fanc cenedlaethol, fel y gall pobl nad ydynt am gael eu hanwybyddu adael a bancio mewn man arall.”</p>	1%

Q4. Ydych chi'n gwybod am unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i gau canghennau banc yn eich ardal chi?

Na	48%
Ddim yn gwybod	33%
Do	19%

Q5. A yw cau banciau lleol wedi cael effaith ar yr economi leol ehangach yn eich ardal?

Do	78%
Ddim yn gwybod	18%
Na	4%

Q6. Os “do”, beth yw'r rhain?

Adeiladau gwag ar y stryd fawr a / neu adeiladau'n dirywio	59%
Llai yn ymweld â'r stryd fawr	52%
Effaith negyddol ar ymdeimlad o gymuned	47%
Costau uwch i fusnesau	36%
Effaith negyddol ar dwristiaeth	31%

Arall: 14%

Busnesau	<p>“Rwyf hefyd yn berchen ar fusnes ac rwy'n cymryd taliadau arian parod ond rydw i'n awr yn gyfyngedig o ran ble a phryd y gallaf dalu hyn i mewn. Mae fy nghanen leol yn dal ar agor ond dim ond rhan-amser sy'n golygu os byddaf yn cymryd taliadau mawr un diwrnod, mae'n rhaid i mi ddal ar yr arian parod i'w dalu i mewn rywbryd eto neu deithio i rywle arall.”</p> <p>“Rwy'n rheoli'r farchnad leol ac mae wedi cael effaith ENFAWR. Mae'n economi sy'n seiliedig ar arian parod, a chyda'r unig beiriant ATM yn y swyddfa bost yn rheolaidd allan o arian neu wedi torri, nid yw pobl yn siopa yn y farchnad.”</p>	30%
Llai o beiriannau ATM a / neu peiriannau ATM yn rhedeg allan o arian parod	<p>“Mae'r ATM wedi cau. Gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdde yn denu 25,000 o ymwelwyr bob mis Awst roedd ciw hir ar gyfer y peiriant arian bob amser. Roedd hefyd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r dref. Bellach mae'n rhaid iddynt ddefnyddio peiriannau ar y safle a thalu ffi ychwanegol.”</p> <p>“Mae gennym bellach un peiriant banc sy'n rhedeg allan o arian yn aml. Nid yw'r un peiriant banc hwn ychwaith yn derbyn rhai cardiau banc tramor.”</p>	17%
Stryd Fawr llai deniadol	“Graffiti ar Natwest Rhydaman, dirywiad cyflwr HSBC & yn enwedig Lloyds gynt wedi llusgo'r dref i lawr.”	16%
Llai yn ymweld â'r stryd fawr	<p>“Ni all pobl fynd i mewn i'r gangen yn lleol felly maent yn ymweld â'r gangen nesaf ac yn gwario eu harian yn y dref honno yn lle.”</p> <p>“Effaith ar wariant yn y dref yn ystod gwyliau mawr ee Gŵyl Comedi Machynlleth, Dyfi Enduro, Gorymdaith Llusernau ac ati.”</p>	15%
Twristiaeth	“Roedd yr holl beiriannau ATM yn Abermaw yn rhedeg allan o arian ar benwythnos y Pasg, a gwnaeth y siopau STOPIO rhoi arian parod i gwsmeriaid. Rhaid fod hyn wedi cael effaith ar y siopau bach, argraff wael ar ymwelwyr â'r ardal, a fyddech chi'n mynd yn ôl i ardal lle na allwch brynu hufen iâ?”	11%

	“Rwyf yn y busnes twristiaeth ac yn clywed twristiaid tramor yn cwyno am ddiffyg peiriannau arian yn gyson, mae hyn yn golygu eu bod yn gwario llai yn ein trefi.”	
Pobl hŷn	“Mae'n anodd iawn i'm tenant oedrannus gael arian i dalu ei rhent pan fo angen. Ar agor ychydig ddyddiau yr wythnos yn unig, mae gwyliau banc yn lleihau hynny hefyd.” “Anghyfleustra i'r henoed a'r anabl nad ydynt yn gallu neidio ar fws na bancio ar y we.”	7%
Adeiladau gwag	“Mae pedwar adeilad mawr bellach yn wag, ac ni all masnachwyr annibynnol fforddio rhenti, ardrethi na phris prynu. Ar yr un pryd mae busnesau bach eraill wedi cau, felly mae tref Castell Newydd Emlyn yn edrych yn eithaf llwm y dyddiau hyn.”	5%
Costau Teithio	“Costau teithio uwch, costau uchel mewn ffioedd parcio ac mae angen i mi drefnu cymorth i deithio y tu allan i'r dref, ac eraill yr un modd. Popeth yn gostus.” “Rhaid gwario ar docynnau bws a 2 awr o deithio felly mae'n rhaid i chi wneud siopa arall yno hefyd. Felly ni allwn gefnogi'n lleol fel y byddem yn dymuno.”	5%
Colli swyddi	“Beth am y staff arbenigol sydd wedi colli eu swyddi, ac mae'r ymdeimlad personol a'r wybodaeth estynedig ma all pobl ond eu cynnig wyneb yn wyneb bellach wedi mynd.” “Mae ein tref yn troi'n dref ddiffaith wrth i bobl deithio i'r dref fawr nesaf i wneud eu bancio a'u siopa hefyd. Colli swyddi lleol, ymdeimlad o anobaith a stryd fawr lom a gwag.”	3%

Q7. Oes gennych chi gyfrif banc busnes?

Na	73%
Do	25%
Don't Know	2%

Q8. Fel cwsmer bancio busnes, a gafodd cau canghennau banc effaith arnoch chi?

Do	78%
Na	18%
Ddim yn gwybod	4%

Q9. Sut mae cau banciau wedi effeithio ar eich busnes?

Yn fwy anodd i fancio arian busnes	82%
Mae'n cyfyngu ar y cymorth a'r cyngor busnes sydd ar gael	56%
Anoddach i gyrraedd peiriant codi arian neu gyfleusterau eraill i godi arian am ddim	50%
Anoddach i gael newid mân (arian ar gyfer y til)	47%
Anawsterau ychwanegol wrth dalu biliau / anfonebau	40%
Erbyn hyn mae angen i mi ddefnyddio Swyddfa'r Post ar gyfer bancio	38%
Mwy o ddefnydd o fancio digidol (ar-lein, ap symudol, ffôn, ac ati)	33%
Erbyn hyn mae'n cymryd hyd at 60 munud yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen banc	32%
Erbyn hyn mae'n cymryd hyd at 60 munud yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen banc	30%
Effaith negyddol ar gwsmeriaid	27%
Erbyn hyn mae'n cymryd dros 60 munud yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen banc	20%
Erbyn hyn mae'n cymryd hyd at 15 munud yn ychwanegol i mi gyrraedd cangen banc	3%
Ychydig neu ddim effaith	0%

Arall: 19%

Swyddfa'r Post	<p>"Nid yw'n broffesiynol defnyddio swyddfa'r post ar gyfer bancio busnes wrth ymyl rhywun sy'n prynu bananas."</p> <p>"Roeddwn yn arfer gallu talu arian i mewn yn swyddfa'r post, ond mae hwnnw bellach wedi cau hefyd."</p> <p>"Nid yw swyddfa'r post yn derbyn taliadau i fy nghyfrif busnes!!!!!! HURT gan mai fi sy'n talu... DDIM yn hapus!!"</p> <p>"Rhaid i chi aros mewn ciw am o leiaf 30 munud yn swyddfa'r post cyn cael sylw!"</p>	38%
Fan Symudol	<p>"Ni all staff mewn faniau bancio symudol ddatrys problem a achosir gan staff bancio dros y ffôn."</p> <p>"Mae fan symudol yn gyfyngedig o ran faint o arian y gall ei dderbyn."</p>	7%

Iaith Gymraeg	“Rydym yn cael ein gorfodi i ddelio â'n materion bancio yn Saesneg, gan mai dim ond ar-lein neu dros y ffôn y mae'r gwasanaeth ar gael. Mae hyn yn mynd yn groes i egwyddorion y cwmni a'r pwyllgor yr wyf yn ei gynrychioli.”	10%
Ciwiau hir	“Nawr mae'n rhaid i mi ddefnyddio cangen wahanol 15 munud i ffwrdd. Mae bob amser yn brysur gyda chiwiau. Y tro diwethaf es i yno roeddwn i yn y ciw am 22 munud cyn cael sylw!”	7%
Sieciau	“Methu mynd â sieciau i'r banc yn hawdd. Yn cymryd 1 diwrnod ychwanegol i sieciau glirio wrth fynd i swyddfa'r post.”	7%
Dibynnu ar bobl eraill	“Nawr mae'n rhaid i mi gael rhywun arall i deithio i dref arall i dalu arian parod / sieciau i mewn oherwydd fy mod yn gweithio'n llawn amser.”	7%
Elusennau	“Cyfrif elusen felly ni allwch ddefnyddio peiriannau ATM neu fancio digidol gan ei gwneud yn amhosibl tynnu arian allan, mae'n rhaid i ni ddal mwy o arian yn ein cartref ac nid yw hynny'n ddiogel.”	7%
WiFi	“Problemau rhwydwaith digidol yng nghefn gwlad. Bregus iawn yw fy nghysylltiad â'r we, ac mae'r gost yn ofnadwy. £75 y mis ar gyfer cysylltiad band eang, a hynny ar gyfer swm data penodol (data cyfyngedig). Mae gan y banciau ddiffyg dealltwriaeth sylweddol o'r anawsterau yng nghefn gwlad o geisio cael mynediad i'w gwasanaethau ar y we.”	7%
Costau uwch	“Oedd, yn nhermau cost, gan fod yn rhaid i ni deithio yn ychwanegol ac o ran cost ein hamser hefyd.”	7%
Gwybodaeth Leol	“Colli gwybodaeth a chymorth lleol.”	7%

Q10. Os effeithiwyd yn negyddol ar eich busnes, beth y gellid ei wneud i helpu?

Mynediad rheolaidd i fanc teithiol (cerbyd banc)	40%
Gwell cysylltedd wifi a / neu rhyngrwyd	31%
Bancio cymunedol	33%
Gwasanaethau bancio Swyddfa'r Post	28%
Ddim yn gwybod	7%
Hyfforddiant ar fancio digidol	6%
Mynediad i undeb credyd	4%

Other: 32%

Ailagor banciau,	Dylai o leiaf un banc aros ar agor ym mhob tref.	43%
------------------	--	-----

stopio cau banciau neu sicrhau isafswm o un banc	“Peidiwch â chau Barclays, mae fy holl gwsmeriaid hŷn yn defnyddio sieciau pan fyddwn yn danfon ac nid ydynt yn hoffi cadw arian parod neu beidio gallu cael gafael ar arian parod, ond mae derbyn sieciau bellach yn golygu siwrnai dwy awr i'w talu i mewn ac nid yw hyn yn gwneud synnwyr busnes da.”	
Rhannu adeilad	“Angen cael un adeilad banc, gyda mynediad i gwsmeriaid NatWest, HSBC a Barclays ynddo.”	12%
Y Gymraeg	“Mae angen i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru gymryd camau i orfodi banciau i gynnig gwasanaeth Cymraeg ar-lein ac ar y ffôn (nid gwasanaeth cyfyngedig mewn canolfan alwadau fel sydd ar gael ar hyn o bryd!).”	6%
Peiriannau ATM	“Mwy o gyfleusterau ATM a ffyrdd rhatach o dderbyn cardiau.” “Peiriant arian parod am ddim i'w ddefnyddio.”	6%
Fan Symudol	“Oriau hirach ar gyfer banciau symudol. 1 awr yr wythnos ddim yn ddigon. Yn aml iawn ceir ciwiau mawr iawn ac mae'n rhaid aros y tu allan yn y glaw. Yn aml iawn nid yw'r cysylltiadau cyfrifiadurol yn gweithio.” “Byddai fan symudol ar gyfer pob banc yn wych, ac oriau hirach.” “Tydi 2 awr ar un diwrnod yr wythnos ddim yn cynnig mynediad rheolaidd ar fan bancio!”	6%
Swyddfa'r Post	“Mae angen prif swyddfa bost yn Llanfair-ym-Muallt, nid un gangen mewn siop ddillad gwely.” “Dileu'r angen am ID wrth dalu arian parod / sieciau yn Swyddfa'r Post.” “Fel elusen, mae gennym 2 lofnodwr ar gyfer ein cyfrif a dim cerdyn banc, felly ni allwn ddefnyddio swyddfa'r post. Dileu'r angen am ID wrth dalu arian parod / sieciau yn Swyddfa'r Post.”	6%

Q11. Ydych chi wedi ymweld â banc teithiol ar gyfer eich bancio busnes / personol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Na	85%
----	-----

Do	13%
Ddim yn gwybod	2%

Q12. Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi â'r banc teithiol fel dewis arall ar gyfer cangen banc?

Anfodlon iawn	24%
Anfodlon	47%
Nid oeddwn yn fodlon nac yn anfodlon	19%
Fodlon	7%
Fodlon iawn	4%

Q13. Os oeddech chi'n anfodlon neu'n anfodlon iawn, beth oedd y rhesymau dros hyn?

Nid oedd yn ddigon preifat i ddelio â chyllid personol	67%
Nid oedd yr oriau agor yn gyfleus ar gyfer bancio	67%
Mae'r ciwiau / amseroedd aros yn aml yn hir	53%
Byddai'n well gen i ddelio'n uniongyrchol â'm banc	48%
Nid oedd mewn lleoliad sy'n gyfleus i mi	24%
Nid oedd y broses fancio yn hawdd	14%
Nid oedd ganddo fynediad i'r anabl	14%

Arall: 41%

Nid oedd yn cynnig gwasanaeth llawn	<p>"Doedd dim modd gwneud rhywbeth mor syml â newid cyfeiriad."</p> <p>"Doedden nhw ddim yn gallu helpu, dyewdwyd wrthyf i ymweld â changen!"</p> <p>"Nid oedd yn cynnig y gwasanaethau roeddwn i'n arfer eu defnyddio yn y banc am ... >300 arian parod, arian tramor, bancio personol."</p>	36%
Ciwio y tu allan	"Gan mai dim ond 2 o bobl sy'n cael eu gadael yng nghefn y fan rwyf wedi gorfod ciwio y tu allan yn y glaw. Mae hyn yn gwbl annerbyniol. Mae'n amhosibl disgwyl i bobl gredu'r myth	25%

	<p>eu bod yn gwsmeriaid gwerthfawr os oes disgwyl iddynt giwio y tu allan.”</p> <p>“Nid yw ond yn caniatáu dau berson y tu mewn ar y tro, felly yn aml mae'n rhaid i chi giwio y tu allan yn y glaw.”</p> <p>“Bu'n rhaid i mi aros am 25 munud yn y glaw, mae fy mam yn anabl ac ni all sefyll mor hir â hynny.”</p>	
Oriau agor anghyfleus	<p>“Mae un ymweliad am 30 munud yr wythnos yn gwbl anymarferol, o leiaf 2 ymweliad yn ddelfrydol am o leiaf 2 awr. Mae angen i mi fancio pan fyddaf yn gallu dianc o'r busnes, ni allwch gau siop mewn busnes bach i yrru 15 munud i'r lleoliad banc symudol i ganfod bod gormod o bobl yn ciwio a'ch bod yn cael eich troi i ffwrdd.”</p>	11%
Diffyg arian parod	<p>“Nid oeddwn yn gallu cael papurau £5 ac ni allwn archebu ymlaen llaw.”</p> <p>“Nid oedd ganddynt ddigon o arian parod. Roedd yn rhaid i un o'r staff ddefnyddio ei arian ei hun.”</p>	8%
Preifatrwydd	<p>“Nid yw cyfrinachedd yn bodoli mewn fan.”</p>	8%
Staff amhrofiadol neu anghwrtais	<p>“Roedd y staff yn ddigywilydd, nid oeddent yn ddefnyddiol, ac ni allent hyd yn oed gofio beth oedd manylion ar gyfer defnyddio gwasanaeth bancio swyddfa'r post.”</p>	8%
Hygyrchedd	<p>“Dim mynediad i gadair wthio gyda dau fabi bach.”</p>	6%
Dim signal	<p>“Yn aml iawn ni ellir cael signal felly ni all wneud yr hyn yr wyf ei eisiau.”</p>	3%

Ymatebwyr i'r arolwg

Oed:

O dan 16	1%
16 i 17	2%
18 i 24	3%
25 i 34	9%
35 i 44	18%
45 i 54	23%
55 i 64	23%
65 i 74	15%

75	3%
Well gennyf beidio â dweud	3%

Lleoliad:

Blaenau Gwent	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	2%
Caerffili	1%
Caerdydd	2%
Sir Gaerfyrddin	12%
Ceredigion	14%
Conwy	3%
Sir Ddinbych	11%
Sir y Fflint	1%
Gwynedd	7%
Ynys Môn	3%
Merthyr Tudful	1%
Sir Fynwy	1%
Castell-nedd Port Talbot	1%
Casnewydd	1%
Sir Benfro	9%
Powys	19%
Rhondda Cynon Taf	4%
Abertawe	1%
Bro Morgannwg	1%
Torfaen	1%
Wreccsam	1%
Well gennyf beidio â dweud	3%